**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-(L)/LG/0683/17

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCLA@assembly.wales

24 Hydref 2017

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref, yn holi a wnaeth Gweinidogion Cymru lunio a mabwysiadu ~~map~~ sŵn erbyn diwedd Mehefin 2017, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, sy'n trosi Cyfarwyddyd Sŵn Amgylcheddol 2002 yn gyfraith Cymru.

Fel a drafodwyd yn yr ymateb cynharach i sylwadau'r Pwyllgor ar Reoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau o Lesiant Lleol) 2017, mae tensiwn rhwng gofynion y Gyfarwyddeb, ar un llaw, i lunio a mabwysiadu mapiau sŵn erbyn diwedd Mehefin, ac ar y llaw arall, i gynnwys data y flwyddyn galendr flaenorol. Mae hyn yn broblem gan nad yw rhywfaint o fewnbwn data calendr y flwyddyn flaenorol, a gynhyrchwyd gan yr Adran Drafnidiaeth, sy'n ofynnol i gyfrifo lefelau sŵn, ar gael i'w defnyddio tan ychydig cyn dyddiad cau mis Mehefin.

Mae cyfrifo lefelau sŵn ym mhreswylfeydd y cannoedd o filoedd o bobl sy'n byw o amgylch y mwy na 1,500 km o briffyrdd ledled Cymru yn dasg enfawr sy'n cymryd amser i'w chwblhau wedi derbyn yr holl fewnbwn data. Mae'r materion ymarferol hyn, sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, yn golygu nad oedd modd cynhyrchu'r map yn unol ag amserlen Mehefin fel sydd angen yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2006.

Fodd bynnag, cynahliwyd y broses o gwmpasu a diffinio'r prosiect ymhell o flaen llaw, ar ddiwedd 2015.

http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/third-round-noise-mapping/?skip=1&lang=cy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cafodd y contractwyr eu penodi ddechrau 2016, a chafodd y fanyleb derfynol ar gyfer y gwaith ei gytuno rhwng fy swyddogion a'r contractwyr mapio sŵn a'r holl fewnbwn data ei gasglu ar gyfer prosesu cyn diwedd Mehefin 2017.

Hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y mapiau sŵn yn cael eu cwblhau a'u cofnodi gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar amser, erbyn diwedd Rhagfyr 2017. Rydym hefyd yn anelu at gyhoeddi'r mapiau sŵn diwygiedig ar wefan Lle cyn diwedd y flwyddyn. Tan i hyn ddigwydd, mae mapiau sŵn 2012 yn parhau i fod yn fyw ac ystyrir eu bod yn cynrychioli'r lefelau sŵn cyfredol ym mwyafrif y lleoliadau.

O'r pedwar o gylchoedd cyntaf o fapiau sŵn sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb (2007, 2012, 2017 a 2022), dim ond nifer cyfyngedig o ffynonellau a fapiwyd yn y cylch cyntaf a bydd yn rhaid i'r pedwerydd cylch ddefnyddio dull o gyfrifo newydd, wedi'i gysoni. Dim ond yr ail a'r trydydd cylch (2012 a 2017) sy'n cynnig y posibilrwydd o gymharu dau gylch dilynol o fapiau sŵn wedi'u cynhyrchu yn yr un ffordd, gan nodi'r newidiadau yn y sŵn dros gyfnod o 5 mlynedd. Rwy'n gobeithio felly y bydd y Pwyllgor yn deall pam y mae'n bwysig inni greu mapiau sŵn newydd i'r un safonau â chylch 2012, er mwyn rhoi'r sylfaen dystiolaeth orau bosib i lywio'r cynllun gweithredu ar sŵn newydd ar gyfer Cymru.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd
a Materion Gwledig

Hydref 2017

Annwyl Lesley

**Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017**

Ystyriodd y Pwyllgor Reoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017 yn ein cyfarfod ar 9 Hydref 2017, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth i'r pwynt rhinweddau a nodwyd mewn perthynas â gofynion mapiau sŵn.

Yn ystod ein trafodaeth, tynnwyd sylw at Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 (Rheoliadau 2006).

Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2006 yn gosod dyletswydd statudol glir ar Weinidogion Cymru i lunio a mabwysiadu mapiau sŵn. O dan reoliad 7, roedd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a mabwysiadu map sŵn erbyn diwedd Mehefin 2017.

O dan yr amgylchiadau, byddwn yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch a wnaeth Gweinidogion Cymru fap sŵn a'i fabwysiadu erbyn diwedd Mehefin 2017, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau 2006.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
Cadeirydd